CYNGOR
CYMUNED
LLANBERIS A NANT PERIS

| | | |
|---|---|---|
| **Cofnodion cyfarfod 21 Mai 2025 a gynhaliwyd yn y Ganolfan am 7 yn yr hwyr** | | |
| **PRESENNOL** | | |
| Bethan Holding | Iwan Harding | |
| Helen Sharp | Aled Hughes | |
| Emlyn Baylis | Louise Price | |
| Iola Owen | Trystan Thomas | |
| Kim Jones | Rhys ap Gwilym | |

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU** | |
| | Agorwyd y cyfarfod yn ffurfiol gan yr Is- Cadeirydd Beth Holding. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y canlynol, Cynghorydd Gwilym Evans a'r Cynghorydd Llinos Haf Pritchard. Roedd y Cynghorydd Sir wedi anfon adroddiad am faterion Cyngor Gwynedd i'r aelodau o flaen llaw. | **CLERC** |
| **1.1** | Ni chafwyd cyfranogiad gan y cyhoedd. | |
| **1.2** | Llinellau Melyn Llainwen: - trafodwyd y mater hwnna phenderfynwyd nad fyddai'r Cyngor yn cefnogi cyflwyno gwaharddiad parcio ar y safle yma oherwydd nid oedd tystiolaeth ddigonol bod problem yn bodoli, hefyd mae cyflwyno llinellau melyn yn rhannol mewn mannau yn y diwedd yn rhoi pwysau ar fannau eraill lle caniateir parcio ac yn annog pobl i barcio mewn ardaloedd llai diogel. Yn ogystal nid yw mwy o linellau yn golygu bod mwy o orfodaeth yn dod o ganlyniad. Y Clerc i anfon ymateb ar yr ymgynghoriad i Gyngor Gwynedd . | **CLERC** |
| **1.3** | Cyflymder Stryd Fawr - cafwyd gwybodaeth gan adain Drafnidiaeth Cyngor Gwynedd bod tystiolaeth bod goryrru ar yr ardal o gyffordd y ffordd osgoi ochr Gaernarfon a'r V12. Er bod y mesur yn cyflawni'r meini prawf i gael gorfodaeth nid oes ardal lle byddai Go Safe yn gallu gweithredu. | **Clerc** |
| **1.4** | Toiledau - cafwyd gwybodaeth bod modd i aelodau o'r Cyngor agor toiledau'r Pentref yn yr Haf fel y llynedd. Er hynny mae angen sicrhau os mai dau adeilad fydd ei angen i'w hagor a bod yr un ger y Llyn am fod yn agored 24/7 fel y llynedd. Y Clerc i gael gwybodaeth briodol a chadarnhaol erbyn y cyfarfod nesaf. | **CLERC** |
| **1.5** | Defaid - mae'r defaid crwydro yn cael eu bugeilio ar ofyn y Cynghorydd Sir a'r Clerc yn unig ac mae hyn wedi digwydd sawl tro dros y mis diweddar. Mae Cyngor Gwynedd am godi arwyddion Defaid ar gyfer y Ffordd Osgoi; hefyd mae adran priffyrdd am archwilio ffensys, waliau ac yn y blaen o amgylch y pentref i ddod o hyd i fylchau sydd yn caniatáu mynediad 'r pentref gan y defaid. | **Clerc** |
| **1.6** | Prydles Campfa awyr agored - cyflwynwyd telerau'r brydles a phenderfynwyd eu derbyn. Clerc i anfon yn ôl at adran Eiddo Gwynedd i ddatgan hyn. | **CLERC** |
| **1.7** | Ultra-Trail Eryri - cafwyd adborth ar ôl y digwyddiad yma. Er bod ychydig o gwyno wedi bod ynglŷn â sŵn roedd sylwadau positif ar y digwyddiad. Roedd y trefnwyd wedi gwrando ar bryderon y Cyngor Cymuned ac wedi gosod mesuriadau i dynnu pwysau oddi wrth | **GE** |

| | | |
|---|---|---|
| | ardaloedd trigo'r pentref. Adborth am ei anfon ymlaen at y trefnwyr gan y Cynghorydd Sir. | |
| **1.8** | Croesi'r Ffordd yn Nant Peris - mater yma wedi ei gyflwyno ar y rhaglen gan y Cynghorydd Llinos Haf Pritchard. Credir bod gor-yrry drwy Nant Peris a bod croesi'r ffordd yno yn beryg. Trafodwyd y mater a phenderfynwyd anfon at Gyngor Gwynedd gyda chais i wneud mesuriad cyflyma yno gan gofio bod yr ardal wedi bod yn derbyn gorfodaeth gan yr heddlu. | |
| **1.9** | Murlun - daeth cais am gefnogaeth i fenter i baentio murlun ar adeiladau) o fewn y pentref. Penderfynwyd bod y Cyngor Cymuned yn gefnogol i'r fenter mewn egwyddor. | |
| **2.0** | **DATGAN DIDDORDEB** | |
| | Dim | |
| **3.0** | **CADARNHAU GWARIANT A CHYFLWYNO ADRODDIAD ARIANNOL** | |
| **3.1** | Gohiriwyd cyflwyno'r adroddiad hyd nes y cyfarfod ym mis Mehefin. | |
| **4.0** | **CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI** | |
| **4.1** | Cadarnhawyd cofnodion mis Ebrill 2025 | |
| **4.2** | Bin sbwriel Cae Chware Lan Llyn. Y bin wedi cyrraedd a bydd yn cael ei osod yn fuan. | **CLERC** |
| **4.3** | Cerflun Stryd/Coffa Chwarelwyr - Dim dilyniant ar y mater ond mae cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer cael dilyniant ar yr holl faterion i wneud a gwelliannau i'r pentref yn sgil arian LLECHI. Bydd y cynghorwyr Helen Sharp, Iola Owen, Beth Holding ac Emlyn Baylis a'r Clerc yn cyfarfod a'r swyddogion ar y 3 o Orffennaf 2025 am yn y Ganolfan. | **CLERC** |
| **4.4** | Storfa'r Cyngor - dim ymateb wedi bod hyd yma oddi wrth gynrychiolwyr Sant Ioan. | **CLERC** |
| **4.5** | Campfa Awyr Agored - draft telerau'r brydles wedi ei derbyn - gweler eitem 1.6. | **CLERC** |
| **5.0** | **PRIFFYRDD A LLWYBRAU CYHOEDDUS** | |
| **5.1** | Angen cael gwybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r llwybrau sydd wedi eu cerdded yn ddiweddar er mwyn rhoi adroddiad blynyddol at ei gilydd. | **CLERC** |
| **5.2** | Mae giât sydd yn arwain at Llwybr Pont Meibion angen sylw. Y Clerc i anfon at Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd. | |
| **6.0** | **Y FYNWENT** | |
| | Dim adroddiad | **CLERC** |
| **7.0** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
| **7.1** | Rhif Cais No.: C25/0283/15/LL Lleoliad: Glyn Afon Stryd Fawr, Llanberis, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4HA Bwriad: Newid defnydd lety gwely a brecwast (8 ystafell wely) i lety gwyliau (defnydd C6) (8 ystafell wely) DIM GWRTHWYNEBIAD | |
| **8.0** | **GWEITHGAREDDAU CYMUNEDOL** | |
| **8.1** | Aelodaeth o'r grŵp i'w gael ei adolygu yn y cyfarfod blynyddol lle bydd aelodaeth y pwyllgor yn cael eu penderfynu. | |
| **9.0** | **ADRODDIADAU CYRFF ALLANOL** | |
| | Dim adroddiadau. | |

CYNGOR
CYMUNED
LLANBERIS A NANT PERIS

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **10.0** | Materion eraill wedi dod i lawr: i.  Cais gan Ysgol Brynrefail am gyfraniad ar gyfer llogi bysiau i Steddfod yr Urdd - Penderfynwyd cyfrannu £500. | |
| | **Daeth y cyfarfod i ben am 9 yn y r hwyr.** | |
| **Llofnod:** | | **Dyddiad:** |